**Ail gartrefi Aelodau'r Cynulliad**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

13 Rhagfyr 2019

**Cais am wybodaeth.**

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 10 Rhagfyr, pan wnaethoch ofyn am y wybodaeth ganlynol:

*Annwyl Syr*
*Yn ôl y cyfarwyddyd a gefais yn ystod fy ngalwad ffôn gyda chi heddiw, daeth i'm sylw bod gan nifer o'n Haelodau Cynulliad ail gartrefi yn gysylltiedig â'u dyletswyddau. Bydd hyn yn cynnwys unrhyw fath ychwanegol o lety er mwyn cyflawni eu dyletswyddau yn y swydd.*
*Yn unol â'r ddeddf uchod, gofynnaf a fyddai modd imi dderbyn rhestr o'r aelodau hynny er mwyn cael y ffeithiau llawn.*
*Diolch yn fawr*

Gall Aelodau'r Cynulliad gael eu digolledu am unrhyw dreuliau y mae'n rhaid iddynt eu hysgwyddo er mwyn eu galluogi i gyflawni eu dyletswyddau fel Aelodau'r Cynulliad. Diben taliadau o dan y Lwfans Gwariant Llety Preswyl yw digolledu'r Aelodau am gostau ychwanegol y mae'n rhaid iddynt eu hysgwyddo wrth aros i ffwrdd o'u prif gartrefi pan fyddant yn cyflawni eu dyletswyddau fel Aelodau'r Cynulliad.

Mae'r rheolau ynghylch yr hyn y mae Aelodau'r Cynulliad yn gallu ei hawlio wedi'u cynnwys mewn 'Penderfyniad' a chyhoeddir yr holl dreuliau ar ein cronfa ddata treuliau.

Mae cyfarwyddiadau ar sut i chwilio'r gronfa ddata ar gael isod:

1. Cliciwch i ddewis y flwyddyn ariannol a'r mis(oedd). (Mae'r dewis diofyn wedi'i osod ar Ebrill-Mawrth ar gyfer y flwyddyn ariannol bresennol).

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn/Tel: 0300 200 6544
E-bost/Email: Ceisiadau-gwybodaeth@cynulliad.cymru
Information-request@assembly.wales

**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh**

2. Cliciwch yma i ddewis Aelod Cynulliad. (Os nad ydych yn clicio ar Aelod Cynulliad penodol, bydd yn dychwelyd chwiliad am bob Aelod.)

3. Cliciwch i ddewis y lwfans yr hoffech ei weld. Er enghraifft, *Lwfansau Costau Ychwanegol, Lwfans Aros Dros Nos yng Nghaerdydd*

4. Cliciwch i ddod o hyd i'r math o wariant (Os nad ydych yn dewis gwariant penodol, bydd yn dychwelyd chwiliad am bob gwariant). Er enghraifft, *Llog Morgais Ail Gartref*, *Rhentu Ail Gartref*, *Treth Gyngor Ail Gartref, Cyfleustodau Ardal Ganolradd, Costau Gwesty yng Nghaerdydd*

Gan fod y wybodaeth y gofynnwyd amdani ar gael yn weddol hygyrch trwy ddulliau eraill, mae'n ddarostyngedig i'r eithriad a nodir yn adran 21 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Gan fod hwn yn eithriad absoliwt, nid yw'n ofynnol i ni gynnal prawf budd y cyhoedd.

Yn gywir

**Y Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

Mae'ch cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Mae croeso ichi gysylltu â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr ymateb hwn. Os ydych yn teimlo bod gennych achos i gwyno, dilynwch y canllawiau isod.

A oes gennych achos i bryderu neu i gwyno ynghylch yr ymateb a gawsoch i'ch cais?

Os ydych yn anfodlon ar sut y mae'r Cynulliad wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol o fewn 40 diwrnod gwaith i ddyddiad yr ymateb hwn. Dylid cyfeirio ceisiadau am adolygiad mewnol at y Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost a ganlyn: Ceisiadau-gwybodaeth@cynulliad.cymru neu yn ysgrifenedig at:
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Llywodraethu a Sicrwydd
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gellir cysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF